**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick

Ddoe, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i symud ymlaen i sefydlu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU a pheidio â chymryd camau pellach ar y Dreth Allyriadau Carbon. Dyma gam pwysig ac rwy'n croesawu'r eglurder y bydd hyn yn ei roi i gyfranogwyr y cynllun, ei reoleiddwyr a'i ddilyswyr. Mae hefyd yn golygu y bydd y cynllun yn cael ei lywodraethu fel fframwaith cyffredin ac, o ganlyniad, y bydd gan Weinidogion Cymru a'r Senedd ran ffurfiol wrth ddarparu'r polisi pwysig hwn.

Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fydd y farchnad garbon fwyaf uchelgeisiol yn y byd, gyda chap sydd 5% yn is na system yr UE. Fodd bynnag, ar ôl derbyn cyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori y flwyddyn nesaf ar gap diwygiedig sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau sero net a bydd cyfraniad eich Pwyllgorau'n bwysig i'n helpu i ddod i benderfyniad mor bwysig.

Yn anffodus, mae ansicrwydd o hyd ynghylch rhagolygon cysylltu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â Chynllun Masnachu Allyriadau'r UE. Rwy'n parhau i bwyso am gytundeb cysylltu fel rhan o gytundeb masnach ehangach gan ei fod yn amlwg er lles gorau pawb. Yn y cyfamser, byddaf yn gweithio gyda'm gweinidogion cyfatebol ar draws y DU i symud ymlaen i weithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fel system annibynnol y gellir ei chysylltu mewn amser.

Rwy'n atodi, **yn gwbl gyfrinachol**, gopi o'r Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020, sy'n cael ei osod yng Nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ar 16 Rhagfyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n rhannu'r copi hwn gyda chi **yn gwbl gyfrinachol** er mwyn eich cynorthwyo i graffu ar fframwaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Roeddwn yn awyddus i'w anfon atoch cyn gynted â phosibl gan y bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr, a bod llai o amser ar gael oherwydd bod cyfarfod mis Rhagfyr y Cyfrin Gyngor yn cael ei gynnal wythnos yn hwyrach nag y bydd fel arfer. Fodd bynnag, gofynnaf ichi beidio â'i rannu y tu hwnt i aelodau'r pwyllgor na'i ddatgelu'n gyhoeddus nes bydd y Cyfrin Gyngor wedi cytuno arno a'i gyhoeddi. Rwy'n bwriadu gosod y Gorchymyn gerbron y Senedd ar 17 Rhagfyr, o dan y weithdrefn negyddol, a bryd hynny bydd yn wybodaeth gyhoeddus.

Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn dal i aros i weld Cytundeb Amlinellol a Choncordat dros dro y Fframwaith. Mae'r penderfyniad i symud ymlaen gyda Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU hefyd wedi arwain at ddatblygiadau gyda'r dogfennau hyn yn Llywodraeth y DU a byddaf yn eu rhannu gyda chi cyn gynted â phosibl. Rwyf wedi ymrwymo i gynnig cyfle ichi graffu ar y dogfennau hyn yn y flwyddyn newydd a bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chi i gytuno ar yr amserlenni a'r broses graffu.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs